**PENDERFYNIADAU'R cyfarfod hybrid o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar ddydd Mercher, 10 Rhagfyr 2025**

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol** : | Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Non Dafydd, Douglas M Fowlie, Euryn Morris, Pip O'Neill, Margaret Murley Roberts, Ken Taylor, Sonia Williams a Liz Wood<br><br>Ms Kathryn Seeney - Rhiant Lywodraethwr - Sector Ysgolion Cynradd,<br>Ms Christina Williams - Rhiant Lywodraethwr Uwchradd ac ADY<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorydd Dafydd Roberts - Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg (ar gyfer eitem 4);<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams - Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo a Newid Hinsawdd (ar gyfer eitem 3). |
| **Ymddiheuriadau**: | Y Cynghorwyr John Ifan Jones a Derek Owen.<br><br>Y Cynghorydd Alun Roberts - Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth, Morwrol ac Eiddo;<br>Y Cynghorydd Robin Williams - Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer. |
| **Hefyd yn bresennol**: | **Aelodau Portffolio**<br><br>Cynghorydd Neville Evans - Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion;<br>Y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones - Aelod Portffolio Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd; |

(10.30 o'r gloch yb - 12.15 o'r gloch yp)

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **2 Datganiad o Ddiddordeb** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Ni dderbyniwyd yr un datganiad. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Ymgynghoriad Casglu Gwastraff ac** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| | **Ailgylchu** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD argymell y canlynol i'r Pwyllgor Gwaith:-**<br><br>• **Cymeradwyo cynnal proses ymgynghori ar newid y gwasanaeth ailgylchu/casglu gwastraff i helpu i gwrdd â'r targed ailgylchu statudol o 70%.**<br>• **Derbyn y cwestiynau i'w gofyn fel rhan o'r broses ymgynghori.**<br>• **Derbyn yr amserlen ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus, yn dechrau ar 7 Ionawr, 2026 ac yn para am 6 wythnos, ond gyda'r disgwyliad y rhoddir ystyriaeth i bryder y Pwyllgor.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Cynllun Strategol Addysg Ddigidol 2026-2031** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD derbyn cynnwys y Cynllun Strategol Addysg Ddigidol ar gyfer y cyfnod 2026-2031.** |